

Llyfrgell Genedlaethol Cymru Cynllun Pensiwn Staff Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi Awst 2020

1. CYFLWYNIAD

- 1.1. Mae Deddf Pensiynau 1995, fel y'i diwygiwyd wedi hynny gan Ddeddf Pensiynau 2004, yn ei gwneud yn ofynnol i Ymddiriedolwyr baratoi datganiad o'r egwyddorion sy'n llywodraethu penderfyniadau buddsoddi. Er bod Ymddiriedolwyr Cynllun Pensiwn staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru ("y Cynllun") wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn gan fod y Cynllun wedi cael gwarant gan y Goron, serch hynny mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn ei bod yn arfer gorau paratoi datganiad.
- 1.2. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi paratoi'r Datganiad hwn o Egwyddorion Buddsoddi ("y DEB") i reoli penderfyniadau buddsoddi'r Cynllun er mwyn cyflawni ei amcan buddsoddi.
- 1.3. Wrth baratoi'r DEB, a chyn unrhyw newidiadau i'r DEB yn y dyfodol, bydd yr Ymddiriedolwyr yn cael ac yn ystyried cyngor buddsoddi priodol gan y Rheolwr Ymddiriedol.
- 1.4. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r DEB bob tro y ceir newid yn y strategaeth fuddsoddi. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r DEB o leiaf bob tair blynedd. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn hysbysu'r Rheolwr Ymddiriedol pan fydd paramedrau'r strategaeth fuddsoddi yn newid. Hefyd, bydd unrhyw newidiadau perthnasol i'r Cynllun neu i gyfamod cyflogaeth yn sbarduno adolygiad o'r strategaeth, a bydd yr Ymddiriedolwyr yn hysbysu'r Rheolwr Ymddiriedol am hynny.
- 1.5. Mae'r DEB wedi'i baratoi yn unol â gofynion rheoleiddio lleol ac arfer gorau'r diwydiant. Dylai'r DEB gael ei ystyried ar y cyd â Chytundeb Rheoli Buddsoddi ("CRhB") y Cynllun a Chytundeb Cyngori Deddf Pensiynau 1995, y ddau wedi'u llofnodi mewn cytundeb â'r Rheolwr Ymddiriedol.
- 1.6. Bydd y DEB ar gael ar gais.
- 1.7. **Cytunwyd ar y fersiwn hwn o'r DEB ar 6 Awst 2020.**

2. MANYLION Y CYNLLUN

- 2.1. Mae'r Cynllun yn gweithredu at yr unig ddiben o ddarparu buddion ymddeol a buddion marwolaeth i gyfranogwyr a buddiolwyr cymwys.
- 2.2. Mae'r Cynllun yn agored i Gronni yn y dyfodol a cheir crynodeb o brif ddarpariaethau'r Cynllun yn yr adroddiad o'r enw **Prisiad Actiaraidd ar 31 Mawrth 2019**.
- 2.3. Mae'r Cynllun yn rhoi cyfle i Aelodau wella eu buddion ymddeol drwy brynu blynyddoedd ychwanegol o wasanaeth gyda Chyfraniadau Gwirfoddol Ychwanegol. O ganlyniad, buddsoddir y cyfraniadau hyn yn unol â strategaeth fuddsoddi'r Cynllun.

3. LLYWODRAETHU

- 3.1. Mae'r Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am sicrhau bod y strategaeth fuddsoddi yn gyson ag amcanion ariannu'r Cynllun a'u hasesiad o gyfamod y cyflogwr.
- 3.2. Penodwyd cyngorwyr proffesiynol gan yr Ymddiriedolwyr i helpu i redeg y Cynllun. Mae rolau a chyfrifoldebau fel a ganlyn:
 - Rheolwr Ymddiriedol – mae'n rhoi cyngor ar y strategaeth fuddsoddi hirdymor ac yn rheoli asedau'r Cynllun yn unol â'r strategaeth fuddsoddi. Bydd y Rheolwr Ymddiriedol yn cydymffurfio â'r deddfwriaeth a'r contract/cytundeb rheoli buddsoddi.
 - Rheolwyr Buddsoddi -- dylent ystyried addasrwydd ac amrywiaeth pob buddsoddiad. Bydd y Rheolwyr Buddsoddi yn cydymffurfio â deddfwriaeth a'u cytundebau/contractau rheoli buddsoddiadau. Disgwylir i'r Rheolwyr Buddsoddiadau sylfaenol ymarfer arferion gorau.
- 3.3. Mae'r Ymddiriedolwyr yn dirprwyo'r penderfyniadau buddsoddi o ddydd i ddydd i'r Rheolwr Ymddiriedol. Fel y llywodraethir gan y strategaeth fuddsoddi y cytunwyd arni gydag Ymddiriedolwyr a'r canllawiau a amlinellir yn y CRhB, bydd y Rheolwr Ymddiriedol yn penodi Rheolwyr Buddsoddi i fuddsoddi asedau'r Cynllun.
- 3.4. Mae rhai o'r Ymddiriedolwyr yn cael eu talu'n anuniongyrchol drwy rinwedd eu cyflogaeth gan y Llyfrgell. Caiff Ymddiriedolwyr nas cyflogir gan y Llyfrgell eu had-dalu am dreuliau wrth ymgymryd â'u rolau fel Ymddiriedolwyr ond ni chânt eu talu'n benodol.

4. STRATEGAETH FUDDSODDI

4.1. Dyma amcanion buddsoddi cyffredinol y Cynllun:

- Cyflawni twf tymor hir y portffolio mewn perthynas â'i rwymedigaethau gyda lefel dderbyniol o risg, a
- Rhagori ar y meincnodau perthnasol gan ystyried cyfyngiadau ar fuddsoddi

4.2. Yn dilyn cyngor proffesiynol, mae'r Ymddiriedolwyr wedi penderfynu y bydd y Rheolwr Ymddiriedol yn gweithredu'r dasg o ddyrannu asedau priodol, fel y llywodraethir gan y CRhB. Mae'r CRhB yn nodi lefel y ddirprwyaeth a roddir i'r Rheolwr Ymddiriedol ac yn amlinellu'r paramedrau y mae'n rhaid i'r Rheolwr Ymddiriedol weithredu o'u mewn. Mae'r CRhB yn gallu newid dros amser wrth i'r strategaeth ddatblygu.

4.3. Mae'r strategaeth fuddsoddi'n diffinio taith y cynllun er mwyn cyflawni'r amcan buddsoddi. Fel rhan o'r broses hon, bydd y Rheolwr Ymddiriedol yn dibynnu ar ragdybiaethau i bennu'r proffil atebolrwydd a'r adenillion disgwylidig ar draws y portffolio o asedau. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod nad yw hon yn wyddor fanwl ac y bydd yn datblygu'n barhaus, felly adolygir y rhagdybiaethau'n rheolaidd a chaiff yr wybodaeth ddiweddaraf ei hystyried lle y bo'n briodol.

4.4. Y strategaeth fuddsoddi ar gyfer y Cynllun yw:

- Buddsoddi mewn portffolio o asedau i ddiogelu cyfran o'r risg o ran chwyddiant a chyfradd llog sy'n rhan annatod o rwymedigaethau'r Cynllun
- Buddsoddi mewn portffolio amrywiol o asedau er mwyn sicrhau cyfaddawd effeithlon o ran risg/enillion gyda'r nod o gynhyrchu digon o elw i leihau'r diffyg ariannol yng nghyllid y Cynllun

4.5. Y Cynllun dad-risgio ar gyfer y Cynllun yw:

- Pan fydd y lefel ariannu'n ddigon ar y blaen i Daith y Cynllun (y tu hwnt i lefel a bennwyd ymlaen llaw) bydd asedau'n cael eu symud o'r portffolio twf i asedau cyfatebol,
- Os bydd y lefel ariannu yn gostwng ymhell ar ôl Taith y Cynllun (y tu hwnt i lefel a bennwyd ymlaen llaw) fe fydd hyn yn gweithredu fel sbardun adolygu i ystyried ail-risgio, h.y. newid asedau o gyfatebol i dwf, ac
- Wrth i'r lefel ariannu wella ac wrth i'r Cynllun agosáu at ddiwedd ei gyfnod, bydd cynnydd yn y cymarebau cyfradd llog a sicrwydd chwyddiant

5. RHEOLI RISG

5.1. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod mai'r prif risg i'r Cynllun yw nad oes ganddo ddigon o asedau i wneud darpariaethau ar gyfer 100% o'i rwymedigaethau ("**risg ariannu**"). Mae'r Ymddiriedolwyr wedi nodi nifer o risgiau sydd â'r potensial i achosi dirywiad yn lefel ariannu'r Cynllun ac sydd felly'n cyfrannu at risg ariannu. Mae'r rhain fel a ganlyn:

- Risg o wahaniaeth sylweddol o ran sensitifrwydd gwerthoedd asedau ac atebolrwydd i newidiadau mewn ffactorau ariannol a demograffig ("**risg cam-gyfateb**"). Ystyriodd yr Ymddiriedolwyr a'u hymgyngorwyr risg cam-gyfateb wrth bennu'r strategaeth fuddsoddi.
- Risg o ddiffyg asedau hylifol mewn perthynas â rhwymedigaethau uniongyrchol y Cynllun ("**risg llif arian**"). Mae'r dyraniad asedau wedi ystyried proffil llif arian y Cynllun o'r Prisiad Actiwaraidd diweddaraf. Dylai hyn gynnig digon o hylifedd i ddiwallu anghenion o ran hylifedd. Pe bai gofynion hylifedd yn newid yna bydd yr Ymddiriedolwyr yn hysbysu'r Rheolwr ac yn diweddarau'r CRhB yn unol â hynny.
- Methiant y Rheolwr i sicrhau'r gyfradd enillion sy'n ofynnol i fodloni'r amcan buddsoddi ("**risg rheolwr**"). Caiff y risg hon ei hystyried gan yr Ymddiriedolwyr wrth benodi'r Rheolwr ar y cychwyn ac yn barhaus wedi hynny (er enghraifft drwy fonitro rheolaidd).
- Methiant i ledaenu risg buddsoddi ("**risg diffyg amrywiaeth**"). Mae asedau'r Cynllun yn cael eu buddsoddi ar draws amrywiaeth o fuddsoddiadau cronfa gyfun sy'n cynrychioli dosbarthiadau o wahanol asedau er mwyn targedu nod y Cynllun, fel y nodir yn y CRhB.
- Posibilrwydd o fethiant cyflogwr sy'n noddi'r Cynllun ("**risg cyfamod**"). Ystyriodd yr Ymddiriedolwyr y risg hon drwy gymryd cyngor allanol wrth bennu'r strategaeth fuddsoddi ac ymgynghori â'r cyflogwr sy'n ei noddi ynghylch addasrwydd y strategaeth arfaethedig.

- Risg bod amlygiad i arian cyfred tramor yn cael dylanwad andwyol ar werthoedd buddsoddi ("**risg arian cyfred**"). Ystyriodd yr Ymddiriedolwyr y risg hon wrth bennu strategaeth fuddsoddi'r Cynllun a thrwy hyn caiff y risg ei rheoli drwy ragfantoli cyfran o'r arian tramor.
 - Risg y bydd ffactorau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu'n cael effaith andwyol ar berfformiad hirdymor asedau'r Cynllun (Risgiau Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu). Bydd yr Ymddiriedolwyr yn sicrhau bod y Rheolwr Ymddiriedol yn mynd ati'n benodol i gynnwys gwybodaeth amgylcheddol, gymdeithasol a llywodraethu mewn penderfyniadau buddsoddi wrth ystyried penodiad a dad-ddethol rheolwyr buddsoddi.
 - Risg y bydd gwarcheidwad yn methu ("**risg gwarcheidwad**"). Caiff asedau eu rheoli'n bennaf o fewn cronfeydd cyfun a rheolir risgiau sy'n gysylltiedig â gwarcheidwad mewn perthynas â buddsoddiadau cronfa gyfun gan gwmnïau rheoli neu weithredwyr cronfeydd cyfun o'r fath. Y tu allan i fuddsoddiadau'r gronfa gyfun, mae'r Ymddiriedolwyr wedi penodi ceidwad Cynllun (BNY Mellon) i reoli llif arian a setlo'r masnachu ar amser.
 - Risg bod digwyddiadau y tu allan i reolaeth y Cynllun yn cael dylanwad andwyol ar werthoedd buddsoddi ("**risg digwyddiad**"). Mae'r Ymddiriedolwyr yn adolygu profion straen ar y portffolio o bryd i'w gilydd er mwyn deall yr effaith y gallai digwyddiadau eithafol ei chael ar lefel ariannu'r Cynllun fel eu bod yn gallu cynllunio'n unol â hynny. Yn ogystal â hyn, mae'r Cynllun yn buddsoddi mewn portffolio amrywiol o asedau i helpu i reoli cyfnewidioldeb.
 - Risg bod gwrthbarti yn methu â chyflawni ei ochr o'r cytundeb a wna mewn cysylltiad â thrafodion deilliadol ("**risg gwrthbarti**"). Mae'r Ymddiriedolwyr wedi penodi'r Rheolwr i liniaru'r risg hon drwy asesu ansawdd credyd y gwrthbartion y mae'n gwneud trafodion â nhw, gan sicrhau amrywiaeth briodol gan y gwrthbarti ac y gwneir taliadau cyfocrog lle bo angen.
 - Risg o dwyll, cyngor gwael neu weithredoedd o esgeulustod ("**risg gweithredol**"). Mae'r Ymddiriedolwyr wedi ceisio lleihau risg o'r fath drwy sicrhau bod pob cynghorydd a darparwr gwasanaeth trydydd parti yn meddu ar y cymwysterau a'r profiad priodol a bod cymalau atebolrwydd a digolledu addas yn cael eu cynnwys ym mhob contract ar gyfer gwasanaethau proffesiynol a dderbynnir.
- 5.2. Mae'r Ymddiriedolwyr yn ystyried risg yn gyfannol ar draws y portffolio ac felly buddsoddir asedau'r Cynllun ar draws ystod amrywiol o fuddsoddiadau. Mae'r dosbarthiadau asedau a ddefnyddir fel rhan o'r strategaeth fuddsoddi yn cynnwys, ond nid yn gyfyngedig i:
- Ecwiti - strategaethau gweithredol ac anweithredol wedi'u buddsoddi ar draws gwahanol ranbarthau,
 - Credyd - gweithredol ac anweithredol ar draws y sbectwm risg yn cynnwys Safon Buddsoddiad, Cynnyrch Uchel, Marchnad sy'n Datblygu,
 - Eraill - Mae'r rhain yn aml yn llai hylifol nag asedau eraill y mae mwy o risg yn perthyn iddynt lle mae gwell premiwm gan eu bod yn anhylif. Pwrpas y rhain yw cynnig llif enillion amrywiol i asedau traddodiadol sydd â mwy o risg yn perthyn iddynt, fel ecwiti.
 - Buddsoddiad a yrrir gan atebolrwydd - deilliadau ac eiddo ffisegol.
- 5.3. Mae'r Ymddiriedolwyr, gyda chymorth eu Rheolwr Ymddiriedol, yn monitro risg ar sail ansoddol a meintiol.
- 5.4. Mae'r dasg o weithredu newidiadau i'r portffolio wedi cael ei dirprwyo i'r Rheolwr Ymddiriedol. Bydd yn asesu priodoldeb pob trafodyn ar sail risg/enillion gan sicrhau cost effeithiolrwydd.

6. BUDDSODDI CYFRIFOL

- 6.1 Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod y gallai risgiau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu effeithio ar allu'r Cynllun i gyflawni ei amcanion buddsoddi ac felly mae'r Ymddiriedolwyr wedi ystyried sut i werthuso a rheoli'r risgiau hyn wrth bennu eu strategaeth fuddsoddi fel y nodir yn y paragraffau canlynol (ynghyd â materion eraill).
- 6.2. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd yn cydnabod pwysigrwydd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, sy'n canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Cred yr Ymddiriedolwyr fod y ffactorau Buddsoddi Cyfrifol a amlinellir yn y ddogfen hon yn adlewyrchu'n fras saith canlyniad llesiant y Ddeddf hon.
- 6.3. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn sicrhau bod Rheolwr Ymddiriedol y Cynllun, ynghyd â risgiau buddsoddi eraill, yn integreiddio'r broses o ystyried risgiau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu drwy gydol ei brosesau gwneud penderfyniadau buddsoddi,
- 6.4. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn gofyn i'r:
- Rheolwr Ymddiriedol, fel rhan o'i ddiwydrwydd dyladwy, asesu dull gweithredu holl reolwyr buddsoddi'r Cynllun o ran integreiddio ac ystyried risgiau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu i'r broses o ddethol, cadw a gwireddu buddsoddiadau, cyn eu penodi;
 - Bydd y Rheolwr Ymddiriedol, fel rhan o'i waith monitro parhaus, yn adolygu'r modd y mae Rheolwyr Buddsoddi'r Cynllun yn glynu wrth eu hegwyddorion amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu ac, yn chwarterol o leiaf, byddant yn adrodd ar fetrigau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu allweddol ar gyfer Rheolwyr Buddsoddi'r Cynllun ac yn cyfuno'r rhain i lefel portffolio lle y bo'n briodol;

- Mae'r Rheolwr Ymddiriedol, fel rhan o'i waith monitro parhaus, yn adolygu sut mae cyfrifoldebau pleidleisio ac ymgysylltu'n cael eu cyflawni ac yn adrodd yn ôl i'r Ymddiriedolwyr o bryd i'w gilydd (er enghraifft os yw'r Cynllun yn buddsoddi mewn cronfeydd cyfun, mae Rheolwyr Buddsoddi'r Cynllun yn gyfrifol am arfer hawliau pleidleisio ac adrodd ar sut y maent wedi arfer yr hawliau hynny); a
- Os nad yw Rheolwyr Buddsoddi sy'n hanu o'r DU wedi ymrwmo i God Stiwardiaeth y DU y FRC, bydd y Rheolwr Ymddiriedol yn ystyried rhesymeg y rheolwr buddsoddi dros y safbwynt hwn a, lle y bo'n briodol, yn cyflwyno adroddiad ar ei ganfyddiadau i'r Ymddiriedolwyr.

6.5. Nid yw'r Ymddiriedolwyr yn ystyried materion anariannol wrth ddedd, cadw a gwireddu buddsoddiadau. Diffinnir materion anariannol fel barn aelodau a buddiolwyr, gan gynnwys (ond heb ei gyfyngu) eu safbwyntiau moesegol, a'u safbwyntiau sy'n ymwneud ag effaith gymdeithasol ac amgylcheddol ac ansawdd bywyd.

7. STIWARDIAETH

- 7.1. Mae'r Ymddiriedolwyr yn deall y gall stiwardiaeth wella gwerth yn y tymor hir ac mae'n cydnabod bod ganddynt gyfrifoldeb i weithredu fel stiward da a diogel a chynyddu gwerth hirdymor y Cynllun er budd aelodau'r Cynllun.
- 7.2. Er mwyn bod yn stiward da, gosododd yr Ymddiriedolwyr bolisi i sicrhau y bydd rhanddeiliaid perthnasol y Cynllun yn ymgymryd â gweithgareddau mewn perthynas â materion sy'n effeithio'n sylweddol ar werth buddsoddiadau'r Cynllun yn y tymor hir.
- 7.3. Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'r Rheolwr Ymddiriedol sicrhau bod y polisi stiwardiaeth yn cael ei weithredu'n briodol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol. Mae'r polisi yn cynnwys sicrhau i'r graddau y bo'n bosibl fod rheolwyr y buddsoddiadau sylfaenol neu'r rheolwyr allanol yn ymarfer ar ran hawliau a dyletswyddau'r Ymddiriedolwyr fel buddsoddwyr. Dylai hyn gynnwys, lle bo hynny'n briodol, pleidleisio ac ymgysylltu â chwmnïau buddsoddi sylfaenol, fel rhan o ddull stiwardio effeithiol sy'n bodloni disgwyliadau'r Ymddiriedolwyr. Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i weithgareddau pleidleisio ac ymgysylltu cael eu cyflawni er budd ariannol gorau'r asedau sy'n cael eu rheoli.
- 7.4. Mae'r Ymddiriedolwyr wedi dirprwyo'r broses o fonitro rheolwyr y buddsoddiadau sylfaenol neu'r rheolwyr allanol i'r Rheolwr Ymddiriedol. Fel rhan o'r cyfrifoldeb hwn, disgwylir i'r Rheolwr Ymddiriedol:
- Ofyn am bolisiau pleidleisio a/neu stiwardiaeth rheolwyr y buddsoddiadau sylfaenol neu'r rheolwyr allanol.
 - Holi ynghylch gweithgareddau pleidleisio'r rheolwr buddsoddiadau sylfaenol o ran y polisiau a nodwyd ganddynt, lle y bo'n briodol.
 - Gofyn i rheolwyr y buddsoddiadau sylfaenol adrodd yn flynyddol drwy roi crynodeb o'r camau pleidleisio a gymerwyd ac unrhyw bleidleisiau a fwrwyd sy'n wahanol i bolisi pleidleisio datganedig y rheolwr hwnnw.
 - Rhoi crynodeb i'r Ymddiriedolwyr o lefel gyffredinol y gweithgarwch pleidleisio yn flynyddol.
- 7.5. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn ymgysylltu â'r Rheolwr Ymddiriedol i ddeall unrhyw adroddiadau a ddarparwyd ac i herio unrhyw ganlyniadau nad ydynt, yn eu barn nhw, yn cyd-fynd â pholisi. Disgwylir i'r Rheolwr Ymddiriedol ymgysylltu â rheolwyr y buddsoddiadau sylfaenol neu'r rheolwyr allanol yn ôl y gofyn er mwyn hwyluso hyn. Os nad yw rheolwr y buddsoddiadau sylfaenol neu rheolwr allanol yn glynu wrth y polisi hwn yn unol â disgwyliadau'r Ymddiriedolwyr, byddai'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'r Rheolwr Ymddiriedol ystyried camau priodol gan ystyried lles ariannol hirdymor y Cynllun.

8. TREFNIADAU GYDA RHEOLWYR

- 8.1. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod y trefniadau gyda holl rheolwyr y Cynllun yn bwysig er mwyn sicrhau bod ei fuddiannau'n cyd-fynd cyn belled ag sy'n rhesymol ymarferol. Mae hyn yn cynnwys trefniadau gyda'r Rheolwr Ymddiriedol a rheolwyr y buddsoddiadau sylfaenol neu'r rheolwyr allanol. Yn benodol, mae'r Ymddiriedolwyr yn ceisio sicrhau bod y Rheolwr Ymddiriedol yn cael ei gymell i weithredu mewn ffordd sy'n arwain at y canlyniadau gorau yn y tymor hir ar gyfer y Cynllun.
- 8.2. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cytuno i rannu'r DEB gyda'r Rheolwr Ymddiriedol ac yn gofyn i'r Rheolwr Ymddiriedol adolygu'r DEB a chadarnhau bod y strategaeth fuddsoddi yn cyd-fynd â pholisiau'r Ymddiriedolwyr.
- 8.3. Bydd polisi'r Ymddiriedolwyr ar drefniadau gyda rheolwyr asedau yn ystyried y pum ystyriaeth ganlynol:
- Sut mae'r trefniant gyda'r Rheolwr Ymddiriedol yn cymell y Rheolwr Ymddiriedol i gysoni ei strategaeth fuddsoddi a phenderfyniadau buddsoddi â pholisiau buddsoddi'r Ymddiriedolwyr.
 - Sut y mae'r trefniant hwnnw'n cymell y Rheolwr Ymddiriedol i wneud penderfyniadau yn seiliedig ar asesiadau ynghylch perfformiad ariannol ac anariannol tymor canolig i hirdymor y rhai sy'n ymwneud â dyled neu ecwiti.

- Sut y mae dull a chyfnod y gwerthusiad o berfformiad y Rheolwr Ymddiriedol a'r tâl am wasanaethau yn cyd-fynd â pholisïau buddsoddi'r Ymddiriedolwyr.
 - Sut mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro "costau trosiant y portffolio" gan y Rheolwr Ymddiriedol, a sut maent yn diffinio ac yn monitro trosiant neu amrediad drosiant portffolio wedi'i dargedu.
 - Hyd y trefniant gyda'r Rheolwr Ymddiriedol.
- 8.4. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod bod gwahanol ffyrdd o ymgysylltu â'u rheolwyr gan gynnwys dogfennau cyfreithiol yn ogystal â threfniadau mwy anffurfiol fel prosesau cyfathrebu ac adrodd a monitro ad hoc gan bob rheolwr.
- 8.5. Mae'r Ymddiriedolwyr yn cydnabod mai'r prif reolwr y mae ganddo drefniadau ag ef yw eu Rheolwr Ymddiriedol. Llywodraethir y trefniant gan y CRhB rhwng yr Ymddiriedolwyr a'r Rheolwr Ymddiriedol. Mae'r Ymddiriedolwyr yn sicrhau bod cyfyngiadau priodol yn cael eu hamlinellu yn yr CRhB er mwyn ceisio sicrhau bod y penderfyniadau y mae'r Rheolwr Ymddiriedol yn eu gwneud yn unol â buddiannau hirdymor y Cynllun. Mae hyn yn cynnwys, ond heb ei gyfyngu i, osod amcan buddsoddi clir, offerynnau cymwys, amrediau dyrannu asedau a pha ddsbarthiadau asedau sy'n gymwys ar gyfer strategaethau gweithredol ac/neu anweithredol.
- 8.6. Mae'r Ymddiriedolwyr hefyd wedi sicrhau bod y "CRhB (a'r datgeliadau atodol a ddarparwyd gan y Rheolwr Ymddiriedol) yn cynnwys polisïau gwrthdaro buddiannau, er mwyn ceisio sicrhau bod cymhellion yn cael eu cysoni rhwng yr Ymddiriedolwyr a'r Rheolwr Ymddiriedol cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol.
- 8.7. Mae'r Rheolwr Ymddiriedol yn paratoi adroddiad blynyddol ar dryloywder costau i'r Ymddiriedolwyr. Mae'r adroddiad yn darparu gwybodaeth yn unol â'r gofynion rheoliadol diweddaraf ar gyfer rheolwyr ymddiriedol. Yn chwarterol, mae'r Rheolwr Ymddiriedol yn rhoi adroddiad ar gyfanswm perfformiad net o ffioedd fel y gall yr Ymddiriedolwyr ystyried effaith ffioedd a chostau wrth werthuso perfformiad. Mae'r Ymddiriedolwyr o'r farn, er mwyn asesu perfformiad eu rheolwyr yn briodol, y dylai'r enillion net perfformiad y buddsoddiadau gael eu monitro dros wahanol gyfnodau amser er mwyn sicrhau bod rheolwyr yn cael eu gwerthuso yn unol â pholisïau'r Ymddiriedolwyr.
- 8.8. Bydd yr Ymddiriedolwyr yn adolygu'r trefniadau gyda'r Rheolwr Ymddiriedol yn rheolaidd, fodd bynnag nid oes unrhyw gyfyngiad ar hyd unrhyw drefniant.
- 8.9. Mae'r Ymddiriedolwyr yn disgwyl i'r Rheolwr Ymddiriedol adolygu'r trefniadau gyda'r rheolwyr buddsoddiadau sylfaenol neu'r rheolwyr allanol sydd hefyd heb unrhyw gyfyngiad ar hyd unrhyw drefniant. Disgwylir i'r Rheolwr Ymddiriedol adolygu'r trefniadau hyn yn barhaus a chymryd camau i geisio diwygio unrhyw drefniadau lle y deallir eu bod er budd y Cynllun yn y tymor hir.
- 8.10. Disgwylir i'r Rheolwr Ymddiriedol ystyried amcan buddsoddi'r Ymddiriedolwyr yn ogystal â pholisïau Buddsoddi Cyfrifol a Stiwardiaeth wrth ddewis a/neu benodi rheolwyr buddsoddiadau sylfaenol neu'r rheolwyr allanol newydd. Disgwylir hefyd i'r Rheolwr Ymddiriedol fonitro'r rheolwyr buddsoddiadau sylfaenol neu'r rheolwyr allanol a chymryd i ystyriaeth y buddsoddiadau y caniateir iddynt eu gwneud er mwyn ceisio sicrhau eu bod yn gyson â buddiannau tymor hir y Cynllun.
- 8.11. Cred yr Ymddiriedolwyr fod ganddynt fframwaith llywodraethu ar waith er mwyn ceisio sicrhau bod gweithredoedd y Rheolwr Ymddiriedol yn cyd-fynd â'r pum polisi trefniadau a restrir uchod. Os oes gan yr Ymddiriedolwyr reswm dros gredu bod y Rheolwr Ymddiriedol yn gweithredu y tu allan i bolisïau'r Ymddiriedolwyr, bydd yr Ymddiriedolwyr yn tynnu sylw'r Rheolwr Ymddiriedol at hyn cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol ac yn ymgysylltu â'r Rheolwr Ymddiriedol er mwyn i'r partïon allu deall y camau gweithredu hynny a cheisio datrys unrhyw bryderon.

9. GWIREDDU ASEDAU

- 9.1. Gellir cadw asedau mewn portffolios ar wahân a chronfeydd cyfun ar draws ystod o strategaethau hylif ac anhylif. Ystyriwyd dyrannu asedau'r Cynllun i strategaethau anhylif gyda golwg ar sefyllfa llif arian y Cynllun yn gyffredinol. Os bydd proffil llif arian y Cynllun yn newid (a'r taliadau buddion yn dod yn rhan sylweddol), yna gellir cynyddu'r dyraniad i'r asedau hylifol. Gellir hylifo'r portffolio hylifol a phortffolio LDI yn weddol hawdd.

10. MONITRO

- 10.1. Mae'r Ymddiriedolwyr yn monitro perfformiad y portffolio a lefel y risg y gallai fod yn agored iddi yn gyson. Mae'r Ymddiriedolwyr yn derbyn adroddiadau cyfnodol yn dangos:
- Sylwadau am y cyfnod sy'n ymdrin â pherfformiad, ffactorau macroeconomaidd a sefyllfa portffolios,
 - Priodoli risg ar draws y portffolio, gan gynnwys profion straen,

- Priodoli enillion ar draws y portffolio, gan gynnwys monitro rheolwyr buddsoddiadau sylfaenol,
- Amcangyfrif o'r newid yn y gymhareb ariannu, gan gynnwys crynodeb o ffactorau sy'n cyfrannu/leihau gwerth,
- Adolygiad o'r lefel ariannu yn erbyn taith y cynllun a gynlluniwyd ac a ddisgwyllir, gan gynnwys unrhyw ffactorau sy'n sbarduno dad-risgio,
- Crynodeb dyrannu asedau sy'n dangos dyraniad asedau tactegol (lle y bo'n berthnasol) yn erbyn y dyraniad asedau strategol a'r amrediadau a ganiateir, a
- Rhagfantoli cymarebau cyfradd llog a sicrhau rhag chwyddiant yn erbyn targed.

10.2. Dirprwyir y broses o fonitro addasrwydd rheolwr buddsoddiadau sylfaenol i'r Rheolwr Ymddiriedol. Dirprwywyd i'r Rheolwr Ymddiriedol y cyfrifoldeb dros sicrhau bod y strategaethau sylfaenol yn foddhaol ac yn briodol ar gyfer y strategaeth fuddsoddi.